Cervical Screening Wales
Sgrinio Serfigol Cymru

Ar ôl Eich Hysterectomi
After Your Hysterectomy

Cymraeg Clir™

NHS WALES GIG CYMRU

Beth yw sgrinio serfigol?

Prawf i archwilio iechyd y serfics (cervix) yw prawf sgrinio serfigol. Rhan isa'r groth (womb) yw'r serfics. Nid prawf i roi diagnosis o ganser serfigol yw hwn. Ei nod yw rhwystro canser rhag datblygu.

A oes angen i mi gael profion ar ôl cael hysterectomi?

Pwrpas hysterectomi yw tynnu'r groth. Fel rheol, mae'n golygu tynnu y serfics hefyd - 'hysterectomi cyfan' yw'r enw ar y driniaeth yma. Dan rai amgylchiadau, fydd y serfics ddim yn cael ei dynnu - 'hysterectomi llai cyfan' yw'r enw ar y driniaeth yma. Os cawsoch chi hysterectomi llai cyfan, fe ddylech chi barhau i gael profion sgrinio serfigol tan y byddwch chi'n 65 oed.
Fe gewch chi wybod gan eich doctor pa fath o hysterectomi a gawsoch chi.

Beth os does dim serfics gen i bellach?

Fel rheol, ni fydd yn rhaid i chi gael rhagor o brofion taeniad serfigol ar ôl cael hysterectomi cyfan.
Er hynny, os cawsoch chi hysterectomi cyfan yn sgîl canlyniad annormal i brawf taeniad, efallai y bydd angen dau brawf arall arnoch chi (y naill 6 mis a'r llall 12 mis ar ôl eich hysterectomi). Yr un fydd y drefn os cafodd newidiadau'u canfod yng ngwddf eich serfics croth adeg gwneud yr hysterectomi.
Yn debyg i'r prawf taeniad arferol, fe fydd y profion yma'n archwilio celloedd o ran uchaf eich gwain (cromen y wain).
Os oes angen y profion yma arnoch chi, fe fyddwn ni'n sgrifennu atoch yn y ffordd arferol i'ch gwahodd i gael prawf.

Rhagor o gwestiynau?

Os hoffech chi ofyn unrhyw gwestiynau eraill am y rhaglen sgrinio (neu gynnig sylwadau neu leisio cwyn) cysylltwch â'ch meddyg teulu, nyrs y feddygfa neu staff y clinig cymunedol, neu sgrifennwch at:

Dr Hilary Fielder, Cyfarwyddwr
Sgrinio Serfigol Cymru
18 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LH

Rydyn ni'n cynhyrchu'r taflenni yma ar bob agwedd ar sgrinio gwddf y groth.

Sgrinio serfigol - y ffeithiau
Prawf taeniad serfigol y mae'n rhaid ei wneud eto
Archwilio prawf taeniad annormal ar y serfics
Archwilio prawf taeniad annigonol ar wddf y serfics
Eich apwyntiad i gael colposcopi
Triniaeth ar ôl prawf taeniad annormal ar wddf y serfics
A ddylai merched gwyryf gael prawf taeniad gwddf y serfigol?
Ar ôl eich hysterectomi
Oes cwyn gennych chi am Sgrinio Serfigol Cymru?
Sut rydyn ni'n defnyddio gwybodaeth amdanoch chi
Ein haddewidion i chi.

Fe gewch chi'r taflenni yma o

- adran weinyddol eich rhaglen Sgrinio Serfigol leol;
- eich meddyg teulu, neu
- ein gwefan ni ***www.velindre-tr.wales.nhs.uk/csw***.

Fe allwch chi gael ein taflenni ni i gyd:

- mewn print mawr
- ar dâp sain
- mewn Braille.

(Ver 1) 09/03